Llywodraeth Cymru

Papur Tystiolaeth cyn Sesiwn Graffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – 18.11.2019

Ymchwiliad i reoli gwastraff

ADRAN 1: Trosolwg hanesyddol

Arwain y ffordd

Mae Cymru wedi ennill enw da yn fyd-eang ar gyfer rheoli gwastraff, yn bennaf oherwydd ei statws fel y drydedd wlad orau yn y byd ar gyfer ailgylchu gwastraff cartrefi. Cymru hefyd oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno tâl am fagiau siopa, yn ogystal â bod yr unig wlad yn y DU i leihau gwastraff bwyd cartrefi'n sylweddol, un o'r ychydig wledydd yn y byd sydd â gwasanaeth casglu gwastraff bwyd cartrefi cyffredinol ar wahân bob wythnos, ac mae wedi llwyddo i alluogi consortia o Awdurdodau Lleol i gaffael seilwaith ar y cyd ar gyfer trin gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol.

Cefndir

Cafodd polisïau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwastraff eu hamlinellu am y tro cyntaf yn *Craff am Wastraff*, a gyhoeddwyd yn 2002. Roedd y ddogfen yn sefydlu dull gweithredu cynaliadwy ar gyfer rheoli gwastraff, gan gysylltu'n gryf â chynllun datblygu cynaliadwy cyffredinol Llywodraeth Cymru bryd hynny, '*Dysgu Byw'n Wahanol*'.

Roedd *Craff am Wastraff* yn cynnwys polisi ar 'ddefnyddio adnoddau'n effeithlon', gan bwysleisio'r angen i wneud yn siŵr bod amcanion economaidd ac amgylcheddol yn cael eu cyflawni ar yr un pryd. Roedd yn nodi'r canlynol: *'er mwyn bod yn hunan-gynaliadwy'n economaidd, bydd angen casglu deunydd o ansawdd uwch ac o werth uwch ar gyfer ailgylchu a chompostio'*. Roedd *Craff am Wastraff* yn cynnwys llawer o gamau gweithredu ar gyfer rheoli gwastraff mewn ffordd fwy cynaliadwy. Ymysg y rhain roedd sefydlu Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, y Cynllun Craff am Wastraff a nifer o raglenni cymorth i fusnesau. Ymyriad allweddol i helpu Awdurdodau Lleol i gyrraedd targedau ailgylchu heriol oedd darparu'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy.

Cynhaliwyd deialog 'y Cyfeiriad i'r Dyfodol' rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol o 2007 i 2009, a oedd yn canolbwyntio ar sut gellid cyrraedd targedau ailgylchu mwy uchelgeisiol. Ymgynghorwyd ar gynigion ar gyfer strategaeth wastraff newydd yn 2009, gan arwain at ddatblygu *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* yn 2010 a'r Rhaglen Atal Gwastraff a Chynlluniau (gweithredu) Sector ddilynol. Roedd Tuag at Ddyfodol Diwastraff wedi ymgorffori prif nodau a chanlyniadau Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru, '*Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned*'. Roedd yn rhoi pwyslais cryf ar atal gwastraff, a'r lefelau uchaf posibl o ailgylchu o ran y gwastraff nad oes modd ei atal.

Roedd Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn tynnu sylw at y rheidrwydd economaidd ar Gymru, sef diogelu'r cyflenwad o adnoddau deunydd crai am bris fforddiadwy er mwyn cynnal yr economi a'r ffordd o fyw. Roedd yn nodi y gellid gwella diogelwch deunyddiau drwy ddefnyddio deunyddiau'n fwy effeithlon, a hynny drwy atal gwastraff a chyfraddau ailddefnyddio ac ailgylchu uchel. Roedd Tuag at Ddyfodol Diwastraff hefyd yn pwysleisio'r angen am ailgylchu o ansawdd uchel mewn system dolen gaeedig[1] (neu 'uwchgylchu'[2]), gan dynnu sylw at fanteision system didoli ar garreg y drws ar gyfer casglu deunydd eildro er mwyn cyflawni hyn.

Roedd Cynllun y Sector Trefol a'r Glasbrint Casgliadau ategol, a gyhoeddwyd yn 2011, yn adeiladu ar egwyddorion Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Roedd datblygiad Cynllun y Sector Trefol yn cydnabod bod angen i Gymru leihau ei defnydd cyffredinol o adnoddau a chaffael a defnyddio adnoddau mewn ffordd gyfiawn a moesegol. Pan fo gwastraff yn cael ei gynhyrchu, dylid ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu gan ddefnyddio dulliau dolen-gaeedig o ansawdd uchel er mwyn lleihau ôl-traed carbon ac ôl-traed ecolegol cymaint â phosibl.

Roedd y Cynllun hefyd yn nodi'r angen i sicrhau gwell gwerth am arian drwy arbedion effeithlonrwydd, a sicrhau rhagor o dryloywder a chywirdeb o ran adrodd ar sut a ble mae deunydd yn cael ei ailgylchu. Roedd yn cynnwys amcan i sicrhau cysondeb ledled Cymru o ran y math o ddeunyddiau sy'n cael eu casglu i'w hailgylchu ac AD gan Awdurdodau Lleol. Nododd y Cynllun pe bai pob Awdurdod Lleol yn casglu set graidd o ddeunyddiau, byddai'n ei gwneud hi'n bosibl cyfathrebu'n haws ynghylch y gwasanaethau hyn, gan arwain at ragor o ddealltwriaeth a chyfraniad gan y cyhoedd. Byddai hefyd yn caniatáu rhagor o gysondeb a lefelau uwch o ran deunyddiau y gellir eu hailgylchu a gyflenwir i ailbroseswyr, yn enwedig y rheini yng Nghymru. Byddai hyn yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i gynyddu hyfywedd mentrau casglu ac ailbrosesu deunyddiau eildro yng Nghymru. Roedd y Cynllun yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld cydgyfeirio rhwng y gwasanaethau a ddarperir dros amser er mwyn i Awdurdodau Lleol allu casglu cymaint o ddeunyddiau â phosibl, a hynny mewn ffyrdd sy'n ei gwneud hi'n fwy tebygol y gallant eu cyflwyno i farchnad ailbrosesu Cymru a'r DU.

Canlyniad y polisïau a nodir uchod yw bod Cymru, yn yr ugain mlynedd ers datganoli, wedi trawsnewid o fod yn wlad a oedd yn ailgylchu llai na 5% o'i gwastraff trefol, i fod yn arweinydd rhyngwladol sy'n ailgylchu 63% ohono.

---

[1] Ystyr ailgylchu mewn system 'dolen gaeedig' yw pan fydd deunyddiau eildro'n cael eu defnyddio'n barhaus at yr un diben neu ddiben debyg – ee potel wydr yn cael ei hailgylchu drwy ei hail-doddi i mewn i botel wydr newydd, neu inswleiddio ffeibr gwydr (y ddau yn cymryd lle gwydr crai/silica) sydd, yn ei dro, yn gallu cael ei ailgylchu eto drwy ei ail-doddi i'w ddefnyddio yn lle gwydr crai/silica.

[2] Mae 'uwchgylchu', ar y cyfan, yn cynnwys deunydd eildro, gyda lefel isel o ynni yn y deunydd, yn cael ei ddefnyddio yn lle deunyddiau â lefel uchel o ynni ynddynt mewn cynnyrch sydd ag oes hir fel arfer – er enghraifft gwastraff papurau newydd yn cael ei ddefnyddio fel deunydd inswleiddio cellwlos, yn lle defnyddio inswleiddio ffeibr gwydr neu sbwng.

ADRAN 2: Y strategaeth gwastraff sydd ar y gweill

Y bwriad yw cyhoeddi dogfen ymgynghori ar ddechrau'r flwyddyn i ymgysylltu'n weithredol â phobl Cymru ar y llwybr dylai Cymru a Llywodraeth Cymru ei ddilyn er mwyn symud i economi gylchol sy'n cadw adnoddau mewn defnydd cyn hired â phosibl, ac yn cael gwared ar wastraff.

. Fel rhan o'r ymgynghoriad, bydd angen canolbwyntio ar leihau'r defnydd o adnoddau, mynd i'r afael â phlastig defnydd untro, lleihau gwastraff bwyd ymhellach ac, ar ôl 2025, cynyddu ailgylchu ymhellach er mwyn cyrraedd y garreg filltir hirdymor o ddim gwastraff (ailgylchu 100%) erbyn 2050, fel y nodir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff/ Bydd hi'n allweddol hefyd gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu gwneud y dewisiadau angenrheidiol i leihau ac ailgylchu gwastraff pan fyddant yn prynu cynnyrch a gwasanaethau, a gweithio gyda busnesau drwy gyflwyno cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr.

ADRAN 3: Yr Argyfwng Hinsawdd

Mae defnyddio dim mwy na'n cyfran deg o adnoddau'r byd a sicrhau economi fwy cylchol – osgoi gwastraff a chadw adnoddau mewn defnydd cyn hired â phosibl – hefyd yn allweddol o ran cymryd camau er mwyn datgarboneiddio. Y rheswm sylfaenol am hyn yw bod economi carbon isel yn economi gylchol – mae 45% o'r allyriadau carbon byd-eang yn dod o'r cynnyrch a'r gwasanaethau rydym yn eu defnyddio.[3]

Mae defnyddio adnoddau'n effeithlon ac economi gylchol yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon tiriogaethol uniongyrchol, ac allyriadau carbon seiliedig ar ddefnydd. Mae carbon corfforedig cynnyrch, neu ôl troed carbon fel y mae'n cael ei alw, yn cyfrannu'n helaeth at y newid yn yr hinsawdd ac mae angen mynd i'r afael â hyn drwy amnewid deunyddiau a defnyddio llai o ddeunydd, a chynhyrchu llai o wastraff.

Mae Cymru'n perfformio'n dda o ran lleihau allyriadau carbon o ganlyniad i'r cynnydd sylweddol mewn ailgylchu gwastraff trefol. Roedd argraffiad diweddaraf adroddiad Eunomia ar ei 'Adnodd Mynegai Ailgylchu Carbon' ar gyfer 2017-18[4] (sy'n cynnwys Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) yn nodi: "Wales remains by some distance the country which achieves the greatest carbon saving per capita from local authority recycling."

ADRAN 4: Atal gwastraff

Roedd *Craff am Wastraff* a *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* yn canolbwyntio'n gryf ar atal gwastraff, ac roedd *Rhaglen Atal Gwastraff* Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2013, yn nodi ein dull gweithredu ar gyfer y dyfodol. Ni yw un o'r ychydig wledydd yn Ewrop sydd wedi gosod targedau atal gwastraff.

---

[3] Ellen MacArthur Foundation (2019) Completing the Picture: How the Circular Economy tackles Climate Change https://www.ellenmacarthurfoundation.org/publications/completing-the-picture-climate-change

[4] https://www.eunomia.co.uk/carbonindex/

Dyma rai o’r mentrau atal gwastraff mae Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi a’u hyrwyddo: y tâl am fagiau siopa (y cyntaf yn y DU), lleihau post sothach, compostio yn y cartref, cewynnau gellir eu hailddefnyddio, ailddosbarthu gwastraff bwyd (drwy gyllid grant FareShare Cymru), cyllid Cynllun Cymunedau’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer prosiectau atal gwastraff (ee Caffis Atgyweirio ac oergelloedd cymunedol), Refill Cymru, Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff, Cynllun Gweithredu Dillad Cynaliadwy, ‘Plastics Pact’ a Courtauld (menter wirfoddol gan y diwydiant bwyd).

Erbyn canol y 2000au, roedd y cynnydd blynyddol mewn gwastraff cartrefi a oedd i’w weld yn niwedd yr 1990au ac yn gynnar yn y 2000au wedi dod i ben ac wedi gwyrdroi (Ffigur 1), er gwaethaf y cynnydd mewn poblogaeth a gwariant cartrefi. Un llwyddiant nodedig yw gostyngiad sylweddol mewn gwastraff bwyd cartrefi rhwng 2009 a 2015. Cymru oedd yr unig wlad yn y DU i weld gostyngiad sylweddol dros y cyfnod hwn. Mae hyn yn golygu nad tystiolaeth sydd wedi arwain at yr honiad fod gosod targedau ailgylchu yn seiliedig ar bwysau yn cynhyrchu mwy o wastraff a/neu’n lliniaru yn erbyn lleihau gwastraff.

Ffigur 1 Cyfanswm gwastraff trefol a chartrefi awdurdodau lleol a gynhyrchwyd yng Nghymru (mil tunnell), 2006-07 i 2018-19



Ffynhonnell: WasteDataFlow; Llywodraeth Cymru, Datganiad Ystadegol Cyntaf, Rheoli Gwastraff Trefol mewn Awdurdodau Lleol, 2018-9.

Gan edrych i’r dyfodol, bydd angen parhau i ganolbwyntio ar gael gwared ar wastraff diangen, gan gynnwys plastig defnydd untro a gwastraff bwyd, ynghyd â lleihau gwastraff dillad. Mae gan bob un o’r rhain ôl troed carbon uchel.

Rhaid canolbwyntio hefyd ar wella'r data gwastraff a gynhyrchir gan fusnesau a'r sector cyhoeddus. Bydd canlyniadau'r arolwg o wastraff Diwydiannol a Masnachol a gomisiynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, yn cael eu cyhoeddi yn 2020. Rydym hefyd yn gweithio gyda DEFRA a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar system tracio gwastraff electronig newydd.

ADRAN 5: Ailgylchu gwastraff trefol

Trosolwg

Mae ailgylchu'n helpu i leihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, yn arbed arian, yn creu swyddi ac yn helpu i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol y byd. Dros y ddau ddegawd diwethaf rydym wedi gweithio gyda'n Hawdurdodau Lleol i lywio a chefnogi newid, gan barchu eu hawl i wneud eu dewisiadau eu hunain wrth eu pwysau. Ond er mwyn helpu i sbarduno cynnydd ledled Cymru a gwneud yn siŵr bod dinasyddion yn cael gwasanaeth ailgylchu da ble bynnag maen nhw'n byw, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ailgylchu statudol sylfaenol i Awdurdodau Lleol.

Cysondeb ac ailgylchu o ansawdd uchel

Mae cynghorau'n gyfrifol am benderfynu ar y gwasanaeth mwyaf addas i'w trigolion yn eu barn nhw. Serch hynny, byddai rhagor o safoni o ran casglu ailgylchu ledled Cymru'n helpu i wneud ailgylchu'n haws i bawb. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda chynghorau i'w hannog i fabwysiadu'r system arferion gorau a amlinellir yn y Glasbrint Casgliadau, a gyhoeddwyd yn 2011. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cymorth i gynghorau drwy'r Rhaglen Newid Gydweithredol i'w helpu i newid eu system. Erbyn misoedd cyntaf 2021, bydd pymtheg o'n cynghorau'n darparu'r un gwasanaeth yn unol â'r Glasbrint Casgliadau.

Datblygwyd y Glasbrint Casgliadau yn dilyn ymchwil helaeth i effeithiolrwydd gwahanol systemau casglu deunyddiau eildro. Mae cymariaethau wedi cael eu gwneud rhwng costau a manteision cymharol y dulliau didoli ar garreg y drws[5], ffrwd ddwbl/driphlyg[6], a chyd-leoli[7]. Casglwyd tystiolaeth gan y diwydiant ailbrosesu yng Nghymru hefyd, yn benodol o'i angen a'i allu i gael gafael ar ddeunyddiau eildro o ansawdd uchel. Fe wnaeth y cwymp pris nwyddau yn 2008-09 dynnu sylw at fregusrwydd y farchnad ailgylchu. Ar y pryd, roedd deunyddiau o ansawdd uwch yn gallu gwrthsefyll y pwysau ar y farchnad yn well. O'r dystiolaeth a oedd ar gael,

[5] Ystyr 'didoli ar garreg y drws' yw perchnogion tai yn rhoi deunyddiau sych y gellir eu hailgylchu mewn un neu fwy o focsys neu fagiau y gellir eu hailddefnyddio, cyn i'r staff casglu drefnu'r deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn ôl deunydd a'u rhoi mewn gwahanol focsys yn yr un cerbyd casglu.

[6] Ystyr 'ffrwd ddwbl/driphlyg' yw perchnogion tai yn rhoi un neu ddau deunydd ar wahân mewn gwahanol fagiau (papur/cardiau mewn un bag neu fin, gwydr mewn un arall – a'r rheini'n cael eu casglu naill ai gan gerbydau ar wahân neu eu rhoi mewn gwahanol focsys yn yr un cerbyd), gyda gweddill y deunyddiau y gellir eu hailgylchu'n cael eu rhoi gyda'i gilydd mewn bag neu fin arall a'u rhoi mewn cerbyd. Mae'r deunyddiau cymysg wedyn yn cael eu trefnu mewn cyfleuster adennill deunydd.

[7] Ystyr 'cyd-leoli (co-mingling)' yw perchnogion tai'n rhoi'r holl ddeunyddiau sych y gellir eu hailgylchu mewn un bag neu fin, sydd wedyn yn cael ei lwytho ar un cerbyd. Mae'r deunyddiau wedyn yn cael eu trefnu mewn cyfleuster adennill deunydd.

daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad mai'r dewis gorau i Gymru fyddai system didoli ar garreg y drws, lle mae trigolion yn rhoi deunyddiau sych y gellir eu hailgylchu mewn tri bocs ar wahân, sydd wedyn yn cael eu llwytho ynghyd â gwastraff bwyd ar un cerbyd aml-adran. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu mai'r system hon fyddai'n arwain at y canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gorau i Gymru. Yn benodol, roedd yn cynhyrchu'r ailgylchu o'r ansawdd uchaf a fyddai'n fwy tebygol o gael ei ddefnyddio yng Nghymru yn hytrach na chael ei allforio. Mae system bocsys neu fagiau y gellir eu dychwelyd hefyd yn galluogi staff casglu cynghorau i ddychwelyd eitemau na ellir eu hailgylchu i berchnogion tai, er mwyn iddynt allu dysgu'n gyflym beth mae'r cyngor yn gallu ei ailgylchu ac yn methu ei ailgylchu.

Lefelau ailgylchu uwch

Mae'r gyfradd ailgylchu wedi aros ar yr un lefel dros y tair blynedd, gyda gostyngiad o un pwynt canran o 64% yn 2016-17 i 63% yn 2017-18. Er mwyn i Gymru gyrraedd ei thargedau yn y dyfodol, bydd rhaid cymryd camau pellach i wella perfformiad.

Roedd y dadansoddiad cyfansoddiadol o Wastraff Trefol Cymru a gyflawnwyd i WRAP Cymru gan Resource Futures yn 2015-16, ac a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2016[8], yn dangos y gellir ailgylchu dros hanner y deunyddiau gweddilliol mewn casgliadau gwastraff ar garreg y drws (gweler ffigur 2).

Ffigur 2: Cyfansoddiad gwastraff trefol gweddilliol a gasglwyd ar garreg y drws

I fynd i'r afael â'r ffaith fod cyfraddau ailgylchu wedi aros ar yr un lefel ac i gyrraedd y targed cyfredol, 70%, mae'n hanfodol annog cartrefi i beidio â rhoi deunyddiau sych y gellir eu hailgylchu (papur, cerdyn, plastig, gwydr, metel, tecstilau) a gwastraff bwyd yn eu gwastraff gweddilliol. Gallai llwyddiant yn hyn o beth arwain at gynnydd yng nghyfraddau ailgylchu gwastraff trefol a chartrefi. Y rheswm am hyn yw bod y dystiolaeth yn dangos pe bai'r holl ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu a'r bwyd yn cael eu rhoi yn y bocsys cywir yn lle'r bocs gweddilliol, byddai cyfraddau ailgylchu Cymru'n mynd heibio 80%. Ar ben hynny, os bydd mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth ailgylchu sydd eisoes wedi'i ariannu, bydd costau delio â gwastraff gweddilliol yn lleihau.

Ar sail y dystiolaeth hon, mae Rhaglen Newid Ymddygiad wedi cael ei datblygu i gynyddu cyfraddau ailgylchu trefol a chartrefi. Cafodd y gwaith o ddatblygu'r rhaglen ei oruchwylio gan y Bwrdd Rhaglen Gweinidogol ar gyfer gwastraff sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, CLILC, Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) a chontractwyr wedi'u caffael.

Mae tair cydran i'r Rhaglen Newid Ymddygiad:

(a) Darparu gwybodaeth gyfarwyddol glir am y manteision i berchnogion tai yn sgil y newidiadau i'r gwasanaeth a hyrwyddo'r manteision hyn, ac annog trigolion i

[8] http://www.wrapcymru.org.uk/sites/files/wrap/Wales%20Municipal%20Waste%20Composition%202015-16%20FINAL.pdf

roi deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn y bin cywir ac nid mewn bocsys gwastraff gweddilliol;

(b) Defnyddio technegau a chyfathrebiadau newid ymddygiad i annog pobl i wahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys drwy anelu at ei gwneud hi'n annerbyniol yn gymdeithasol i gymysgu deunyddiau y gellir eu hailgylchu a gwastraff gweddilliol;

(c) Annog pobl i wahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu o focsys gwastraff gweddilliol gan ddefnyddio deddfwriaeth briodol, a gorfodaeth o bosibl.

Mae natur yr ymgyrch yn golygu ei bod hi'n anodd mesur canlyniadau posibl ymgyrch newid ymddygiad ymlaen llaw. Ond, er enghraifft, pe bai'r ymgyrch yn cynyddu ailgylchu i'r graddau bod hanner y deunyddiau y gellir eu hailgylchu sydd mewn gwastraff gweddilliol yn cael eu casglu, byddai hyn yn arwain at gynnydd o 9.9% yn y gyfradd ailgylchu i dros 72%, gydag arbedion net o fwy na £5.5 miliwn y flwyddyn. Yn y pen draw, pe bai Cymru'n llwyddo i gynyddu ailgylchu i'r graddau bod 100% o'r deunyddiau y gellir eu hailgylchu sydd mewn gwastraff gweddilliol yn cael eu casglu, fel y dangosir yn ffigur 2, byddai'n arwain at gynnydd o 17.3% yn y gyfradd ailgylchu a fyddai'n cyrraedd 80% ar sail data gan WRAP [9].

ADRAN 6: Caffael capasiti trin gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol

Ar ôl ugain mlynedd o gynnydd, mae Cymru bellach yn gymdeithas sy'n ailgylchu ar lefel uchel gyda seilwaith casglu o ansawdd uchel, seilwaith ailbrosesu datblygedig, ac enw da yn fyd-eang. Mae cyfran y gwastraff trefol sy'n cael ei waredu drwy dirlenwi wedi gostwng yn sylweddol, gan ddisgyn o 42 y cant yn 2012-13 i 10 y cant yn 2018-19 (Ffigur 3).

Ffigur 3: Gwastraff trefol wedi'i anfon i'w drin yn ôl dull rheoli (%), 2012-13 i 2018-19.



[9] Effaith Gwahanu Mwy o Wastraff Gweddilliol ar Gostau a Chyfraddau Ailgylchu Awdurdodau Lleol, Uned Newid Cydweithredol WRAP, Tachwedd 2018 – Dadansoddiad dros dro

Ffynhonnell: WasteDataFlow; Llywodraeth Cymru, Datganiad Ystadegol Cyntaf, Rheoli Gwastraff Trefol mewn Awdurdodau Lleol, 2018-9.

Y prif ffocws dros y degawd a hanner diwethaf oedd gwneud yn siŵr bod y seilwaith angenrheidiol yn cael ei roi yn ei le er mwyn ailgylchu a chynhyrchu ynni adnewyddadwy o wastraff bwyd cartrefi a gesglir ar wahân, a chynhyrchu ynni rhannol adnewyddadwy o wastraff gweddilliol. Mae'r ddau beth yma yn ein helpu ni ar ein llwybr i gael gwared ar y defnydd o dirlenwi, sydd ar waelod yr hierarchaeth gwastraff gan mai hyn sy'n achosi'r canlyniadau amgylcheddol gwaethaf. Mae'r seilwaith newydd hwn hefyd yn helpu i leihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff yn sylweddol. Roedd y gwastraff bwyd, gardd a phapur a oedd arfer cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi'n cynhyrchu methan pan oeddent yn pydru, sef nwy tŷ gwydr niweidiol sy'n fwy cryf o lawer na carbon deuocsid.

Ers cyhoeddi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru/Swyddfa Archwilio Cymru mae Parc Adfer, y cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni sy'n gwasanaethu prosiect gwastraff gweddilliol gogledd Cymru, wedi dechrau gweithredu ac mae'n cael ei gomisiynu ar hyn o bryd. Mae'r naw contract arall yn parhau i weithredu fel y bwriedir.

Gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, mae buddsoddiadau strategol mewn seilwaith gwastraff yn mynd i'r afael â'r pwysau cynyddol o ran fforddiadwyedd, ac yn cynnig atebion tymor hir i wella perfformiad gwasanaethau. Wrth symud tuag at cymdeithas ddiwastraff sy'n ailgylchu mwy, bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau buddsoddi fel rhan o becyn buddsoddiadau sy'n synergyddol, yn hytrach na'u gwneud ar eu pen eu hunain.

Mae'r prosiectau newydd sydd wrthi'n cael eu datblygu'n cael eu cynllunio drwy bartneriaethau ar y cyd sy'n darparu gwasanaethau rhanbarthol er mwyn cynyddu'r raddfa a lleihau'r costau cymaint â phosib. Mae'r rhaglen newydd wedi nodi buddion mynd i'r afael â thri deunydd blaenoriaeth – cynnyrch hylendid amsugnol, pren a phlastig.

ADRAN 7: Casgliad

Mae ailgylchu wedi bod yn llwyddiant enfawr yng Nghymru; mae wedi arwain y ffordd ac wedi ennill enw da yn fyd-eang. Ond yr her nawr yw cyrraedd y lefel nesaf gyda dull gweithredu sy'n adeiladu ar y cynnydd hyd yma, gan gydnabod yr angen i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac atal gwastraff drwy symud i economi gylchol. Bydd hyn nid yn unig yn arwain at gyfleoedd economaidd i Gymru, ond hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac effeithiau ehangach defnydd ar fioamrywiaeth fyd-eang.